



3D - Eagle
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000
e-mail: wylfa@pins.gsi.gov.uk

Kieran Somers - Head of Planning

Your Ref:

Horizon Nuclear Power

Our Ref: EN0100070

Date: 9 June 2017

Annwyl Mr Somers

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 46 a Rheoliadau Cynllunio
Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 (fel y'u diwygiwyd) –
Rheoliad 6**

**Cais arfaethedig gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn sy'n Rhoi Caniatâd
Datblygu ar gyfer Wylfa Newydd Nuclear Power Station**

Cydnabod derbyn gwybodaeth mewn perthynas â'r cais arfaethedig

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Mai 2017 a'r ddogfennaeth ganlynol:

- Dogfen Trosolwg o'r Ymgynghoriad
- Y Brif Ddogfen Ymgynghori

Rwy'n cydnabod eich bod wedi hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o'r cais arfaethedig am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu at ddibenion adran 46 Deddf Cynllunio 2008 ac wedi darparu'r wybodaeth ar gyfer ymgynghori o dan adran 42. Rhoddwyd y cyfeirnod canlynol i'r cais arfaethedig a buaswn yn ddiolchgar pe byddech yn ei ddefnyddio mewn cyfathrebiadau wedi hyn:

EN010007

Rwy'n cydnabod hefyd hysbysiad yn unol â Rheoliad 6 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 (fel y'u diwygiwyd) eich bod yn bwriadu darparu datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig / eich bod yn gofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio fabwysiadu barn sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Fi fydd eich cyswllt ar gyfer y cais hwn – mae fy manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr hwn.

Rôl yr Arolygiaeth Gynllunio yn y broses hon yw darparu cyngor annibynnol a diduedd

am y gweithdrefnau dan sylw a chael trafodaethau agored gyda darpar ymgeiswyr, cyrff statudol ac eraill ar brosesau a gofynion y drefn newydd. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am eich amserlen ac unrhyw newidiadau sy'n digwydd.

Byddwn yn cyhoeddi'r cyngor a roddwn i chi neu bartïon eraill â buddiant ar ein gwefan ac, os yw'n berthnasol, partïon uniongyrchol i chi fel yr ymgeisydd. Rydym yn hapus i gyfarfod ar adegau cerrig milltir a/neu ddarparu cyngor wrth i'r achos fynd trwy'r cam cyn ymgeisio.

Pan fyddwch wedi paratoi dogfennau drafft, gallwn ddarparu cyngor technegol, yn benodol ar y gorchymyn caniatâd datblygu drafft, memorandwm esboniadol, yr adroddiad ymgynghori ac unrhyw Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft. Mae'n bosibl y dymunech ymgorffori hyn yn eich amserlenni felly.

Yn y cyfamser, mae'n bosibl y dymunech ystyried yr arweiniad a'r ddeddfwriaeth sydd ar ein gwefan, gan gynnwys Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) 2010 (fel y'u diwygiwyd) ac arweiniad cysylltiedig y bydd gofyn i chi gadw atynt yn ofalus wrth sefydlu'r ffi gywir i'w chyflwyno mewn camau olynol y broses ymgeisio.

Wrth geisio bodloni eich rhwymedigaethau cyn ymgeisio, dylech hefyd fod yn ymwybodol o'ch rhwymedigaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 i brosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae pob croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Kay Sully

Kay Sully - Rheolwr Achos

Dear Mr Somers

Planning Act 2008 (as amended) – Section 46 and The Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009 (as amended) – Regulation 6

Proposed application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development Consent for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station

Acknowledgement of receipt of information concerning proposed application

Thank you for your letter of 23 May 2017 and the following documentation:

- Consultation Overview Document
- Main Consultation Document

I acknowledge that you have notified the Planning Inspectorate of the proposed application for an order granting development consent for the purposes of section 46 of the PA2008 and supplied the information for consultation under section 42. The following reference number has been given to the proposed application, which I would be grateful if you would use in subsequent communications:

EN010007

I also acknowledge notification in accordance with Regulation 6 of the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009 (as amended) that you propose to provide an environmental statement in respect of the proposed development / you request to the Planning Inspectorate to adopt a screening opinion in respect of the proposed development.

I will be your point of contact for this application – my contact details are at the end of this letter.

The role of the Planning Inspectorate in the application process is to provide independent and impartial advice about the procedures involved and to have open discussions with potential applicants, statutory bodies and others about the processes and requirements of the new regime. It is important that you keep us accurately informed of your timetable and any changes that occur.

We will publish advice we give to you or other interested parties on our website and, if relevant, direct parties to you as the applicant. We are happy to meet at key milestones and/or provide advice as the case progresses through the pre-application stage.

Once you have prepared draft documents we are able to provide technical advice, in particular on the draft development consent order, explanatory memorandum, the consultation report and any draft HRA. You may therefore wish to build this into your timetables.

In the meantime, you may wish to have regard to the guidance and legislation material provided on our website including the Infrastructure Planning (Fees) Regulations 2010 (as amended) and associated guidance, which you will need to observe closely in establishing the correct fee to be submitted at the successive stages of the application process.

When seeking to meet your pre-application obligations you should also be aware of your obligation under the Data Protection Act 1998 to process personal data fairly and lawfully.

If you have any further queries, please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely

Kay Sully

Kay Sully - Case Manager

Advice may be given about applying for an order granting development consent or making representations about an application (or a proposed application). This communication does not however constitute legal advice upon which you can rely and you should obtain your own legal advice and professional advice as required.

A record of the advice which is provided will be recorded on the National Infrastructure Planning website together with the name of the person or organisation who asked for the advice. The privacy of any other personal information will be protected in accordance with our Information Charter which you should view before sending information to the Planning Inspectorate.